# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Mai 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 141(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.45 i ystyried rhagor o welliannau i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y Cyfnod Adrodd

(5 munud)

### 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NNDM8277** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro Reol Sefydlog 12.10(ii) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8276 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Mai 2023.

## Cynnig i ethol Cadeiryddion ac Aelodau i'r Pwyllgor Diben Arbennig ar gyfer Cymru ar Ymchwiliad Covid-19

(5 munud)

**NNDM8276** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2T, yn penderfynu na fydd Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.2S (ethol cadeiryddion pwyllgorau) yn gymwys mewn perthynas â Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

2. Yn penderfynu, at ddibenion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, y dylid dehongli cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at 'gadeirydd' pwyllgor i olygu 'cyd-gadeirydd' a bod yn rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

a) Vikki Howells (Llafur Cymru), Jack Sargeant (Llafur Cymru), Altaf Hussain (Ceidwadwyr Cymreig) ac Adam Price (Plaid Cymru) yn aelodau o Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru;

b) Joyce Watson (Llafur Cymru) a Tom Giffard (Ceidwadwyr Cymreig) yn Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

4. Yn penderfynu cyfarwyddo y dylai busnes cychwynnol Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ystyried y gweithdrefnau y mae'n bwriadu eu mabwysiadu i gyflawni'r dibenion y mae wedi'u sefydlu ar eu cyfer (gan gynnwys gweithredu'r trefniadau cyd-gadeirio) ac argymell unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol i hwyluso ei waith.
5. Yn nodi y bydd y Pwyllgor Busnes yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog y mae o'r farn sydd eu hangen i hwyluso gwaith Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, gan ystyried unrhyw argymhellion ar gyfer diwygiadau a wneir gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

## 5 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Bwyd (Cymru)

(60 munud)

**NDM8271** Peter Fox (Mynwy)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Bwyd (Cymru).

Gosodwyd y Bil Bwyd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 12 Rhagfyr 2022.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i'r Pwyllgor Cyllid

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

(60 munud)

**NDM8270** Jenny Rathbone (Canol Caredydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: “Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol” a osodwyd ar 8 Mawrth 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2023.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Deintyddiaeth y GIG

(60 munud)

**NDM8272** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod ymchwiliad gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi canfod nad yw 93 y cant o feddygfeydd deintyddol yng Nghymru yn derbyn cleifion newydd GIG Cymru sy'n oedolion.

2. Yn cydnabod bod arolwg Cymdeithas Ddeintyddol Prydain o 250 o ddeintyddion yng Nghymru wedi canfod bod dros draean o ddeintyddion yn bwriadu lleihau eu contractau GIG yng Nghymru.

3. Yn mynegi pryder bod llawer o drigolion ledled Cymru yn aros dros ddwy flynedd i gofrestru gyda deintydd GIG yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain i sicrhau bod contractau deintyddol GIG Cymru yn caniatáu i bractisau deintyddol gynyddu nifer eu cleifion; a

b) recriwtio mwy o ddeintyddion ar frys drwy wneud deintyddiaeth GIG Cymru yn yrfa ddeniadol, drwy ad-dalu ffioedd dysgu i'r rhai sy'n gweithio mewn practisau deintyddol GIG Cymru am bum mlynedd.

**Gwybodaeth ategol**

*Ymchwil Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i bractisau deintyddol sy’n derbyn cleifion newydd y GIG sy’n oedolion* (Saesneg yn unig)

*Arolwg Cymdeithas Ddeintyddol Prydain o 250 o ddeintyddion  o Gymru* (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:  Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod adfer gwasanaethau deintyddol ar ôl pandemig y coronafeirws yn her hirdymor ar draws y Deyrnas Unedig.

2. Yn nodi bod cael gafael ar wasanaethau deintyddol yn parhau i fod yn heriol i rai pobl yng Nghymru.

3. Yn nodi bod mwyafrif llethol y practisau deintyddol â chontractau'r GIG yn cymryd cleifion GIG newydd y llynedd ac y byddant yn parhau i wneud hynny eleni.

4. Yn nodi bod 174,000 o bobl nad oeddent wedi cael gofal deintyddol y GIG yn hanesyddol wedi cael apwyntiad ac wedi cael triniaeth y llynedd.

5. Yn nodi bod lleiafrif o gontractau deintyddol wedi'u terfynu neu wedi'u lleihau o ran eu gwerth, a bod yr arian a ddychwelwyd yn cael ei gadw gan y bwrdd iechyd i ailgomisiynu gwasanaethau yn eu lle.

6. Yn croesawu y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i:

a) gweithio gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain i ddatblygu a negodi contract deintyddol newydd sy'n gwneud deintyddiaeth y GIG yn ddewis deniadol; a

b) gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac israddedigion deintyddiaeth i ddeall beth fyddai'n eu cymell i weithio yng Nghymru ar ôl graddio.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu fel is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 4:

adolygu amodau cytundebol ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i'w gwneud yn fwy cynaliadwy a deniadol yn y tymor hir;

meithrin gallu hyfforddi deintyddol, gan gynnwys drwy archwilio'r posibilrwydd o sefydlu ysgol ddeintyddol newydd yn y gogledd;

datblygu strategaeth cadw'r gweithlu.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8269** Tom Giffard (Gorllewin De Cymru)

Coffadwriaeth barhaol i'w diweddar Fawrhydi Brenhines Elizabeth II

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2023

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 17/05/2023 i'w hateb ar 24/05/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### GWEINIDOG YR ECONOMI

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ59573 **(e)**

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i greu swyddi yn Nwyrain De Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ59568 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o lwyddiant ymdrechion Llywodraeth Cymru i leihau anweithgarwch economaidd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OQ59551 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn cefnogi busnesau twristiaeth yng nghanolbarth Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

4 OQ59570 **(e)**

Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar strategaeth lled-ddargludyddion arfaethedig y DU?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

5 OQ59567 **(w)**

Pa gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau band eang i fusnesau yng Nghanol De Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ59546 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau bach a micro yng Ngogledd Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OQ59544 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer arloesi?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

8 OQ59554 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y busnesau hunanddarpar sydd wedi cau, neu sydd mewn perygl o gau, oherwydd y trothwy 182 diwrnod ar gyfer llety gwyliau?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

9 OQ59572 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am werth y sector cynhyrchu bwyd i economi Cymru?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

10 OQ59564 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y cyflymydd cenedl ddata?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

11 OQ59571 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lywodraethiant mewn perthynas â phorthladdoedd rhydd?

**Hefin David** *Caerffili*

12 OQ59575 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Joel James** *Canol De Cymru*

1 OQ59549 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod meddygfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithredu i ganllawiau'r gwasanaeth meddygol cyffredinol drwy gynnig apwyntiad y tro cyntaf, bob tro?



**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

2 OQ59579 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn ne-ddwyrain Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

3 OQ59580 **(e)**

Pa effaith y mae hawl GIG Lloegr i atgyfeiriad preifat yn ei chael ar lywodraethu clinigol yng Nghymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ59577 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau lefelau staff nyrsio digonol ar draws Gorllewin De Cymru?

5

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

OQ59553 **(e)**

Pa effaith ganlyniadol y mae cau wardiau ysbytai o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei chael ar ddarpariaeth iechyd mewn rhannau eraill o'r ardal honno?

6

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ59562 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol?

7

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ59548 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau strôc y GIG yng nghanolbarth Cymru?

8

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ59558 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl?

9

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ59559 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o argaeledd gwasanaethau deintyddol yn Nwyrain De Cymru?

10

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ59545 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

11

## OQ59557 (e)

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer asesu anhwylderau niwroddatblygiadol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

12

## OQ59574 (e)

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i greu dyfodol cynaliadwy i ddeintyddiaeth y GIG yn Nwyrain De Cymru?